Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages
Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi.
Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.
We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay.
Let us know your language choice if Welsh or bilingual.

RHONDDA CYNON TAF

Ms B Fullylove

Ein Cyf: RH/SR **Dyddiad**: 28 Medi 2026

Annwyl Ms Fullylove

Dyma ymateb i'ch deiseb a ddaeth i law ar 17 Awst 2026. Hoffwn i ymddiheuro am yr oedi bach yn ein hymateb.

Roedd angen ymgynghori â charfan Safonau Tai'r Cyngor ynghylch y materion yn eich deiseb a dyma'r canlyniad.

Rydyn ni'n cydnabod yr effaith y mae'r digwyddiad yma wedi'i chael ar breswylwyr ac yn deall y pryderon yn y ddeiseb. Mae diogelwch a lles cymunedau lleol ac unigolion sy'n byw yn yr eiddo yn ystyriaethau pwysig.

Dyw Carfan Adsefydlu'r Cyngor ddim yn gosod ceiswyr lloches mewn llety sydd wedi'i ddarparu trwy gontractau'r Swyddfa Gartref. Mae llety i geiswyr lloches yn cael ei gomisiynu gan y Swyddfa Gartref a'i reoli gan ddarparwr y contract, Clearsprings Ready Homes. Dyw'r Cyngor ddim yn rhan o benderfyniadau ynghylch gosod unigolion yn y lleoliadau yma. Dyw gwybodaeth am breswylwyr yr eiddo ddim yn cael ei rhannu gyda'r Cyngor fel arfer.

Rydyn ni'n effro i bryderon parhaus ynghylch trefniadau cyfathrebu a rhannu gwybodaeth rhwng darparwyr llety, y Swyddfa Gartref ac Awdurdodau Lleol. Mae'r pryderon yma wedi cael eu codi'n ffurfiol gan y Cyngor ac rydyn ni'n parhau i geisio gwelliannau i weithio mewn partneriaeth a rhannu gwybodaeth.

Mae trwydded Tŷ Amlfeddiannaeth (HMO) ar 88 Heol Tyntyla, Llwynypia ar hyn o bryd. Mae'r eiddo wedi'i drwyddedu gan Garfan Safonau Tai'r Cyngor yn unol â Chynllun Trwyddedu Ychwanegol Tai Amlfeddiannaeth 2024 y Cyngor a Rhan 2 o Ddeddf Tai 2004.

Trosodd

Clearsprings Ready Homes sy'n rheoli 88 Heol Tyntyla. Yn rhan o'i gontract Swyddfa Gartref, rhaid i gwmni Clearsprings Ready Homes sicrhau bod preswylwyr yn derbyn cymorth priodol yn ôl yn angen, gan gynnwys ar faterion lles a diogelwch. Dyw cynnig na monitro darpariaeth o'r fath ddim yn rhan o gyfrifoldebau'r Cyngor yn ei rôl fel Awdurdod Trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth.

Louise Davies
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymuned
Director of Community Services
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Rhondda Cynon Taf County Borough Council
Llawr 4, 2 Llys Cadwyn, Stryd y Taf,
Floor 4, 2 Llys Cadwyn, Taff Street,
Pontypridd, CF37 4TH
Ebost:Cyfarwyddwr.iechydycyhoedd@rctcbc.gov.uk
Email: Director.PublicHealth@rctcbc.gov.uk

MAE EICH DATA O BWYS www.rctcbc.gov.uk/diogeludata
YOUR DATA MATTERS www.rctcbc.gov.uk/dataprotection
hyderus o ran anabledd CYFLOGWR
disability confident EMPLOYER

Er bod gan y Cyngor gyfrifoldeb rheoleiddio trwyddedau Tai Amlfeddiannaeth a modd i reoleiddio nifer y bobl/aelwydydd sy'n cael meddiannu Tŷ Amlfeddiannaeth, does dim modd iddo reoli na phenderfynu pa unigolion sy'n meddiannu eiddo trwyddedig.

Mae amodau ynghlwm wrth drwydded y Tŷ Amlfeddiannaeth y mae'n rhaid eu dilyn er mwyn i drwydded yr eiddo barhau i fod yn ddilys. Yn fras, mae'r amodau'n ymwneud â'r materion canlynol:

1. Nifer y bobl/aelwydydd sy'n cael byw yn yr eiddo
2. Newidiadau i'r eiddo trwyddedig, deiliad trwydded neu drefniadau rheoli
3. Trefniadau gosod eiddo
4. Cyflwr yr eiddo a'r cyfleusterau cysylltiedig
5. Rhagofalon tân
6. Nwy, gosodiadau trydanol a dodrefn
7. Materion cymunedol ac amgylcheddol
8. Trefniadau storio a gwaredu gwastraff
9. Rhoi trefniadau rheoli boddhaol ar waith.

Er bod amodau trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth yn eu gwneud yn ofynnol i ddeiliad y drwydded gymryd camau rhesymol i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol gan breswylwyr, gan gynnwys niwsans sŵn a throseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus, byddai'n afresymol disgwyl i ddeiliad y drwydded ragweld neu atal rhywun yn llosgi'r eiddo yn bwrpasol. Felly, fyddai gweithred o'r fath gan feddiannwr ddim yn torri amodau trwydded y Tŷ Amlfeddiannaeth.

Mae'n werth nodi bod Heddlu De Cymru wedi ymchwilio i'r digwyddiad tân ac wedi arestio, cyhuddo a chadw unigolyn yn y ddalfa tra bod achos llys yn yr arfaeth.

Yn sgil yr achos posibl o losgi bwriadol gan breswylydd a oedd yn meddiannu 88 Heol Tyntyla, mae pob preswylydd wedi gadael. Mae'r eiddo'n wag ar hyn o bryd tra bod gwaith atgyweirio ac adnewyddu yn yr arfaeth.

Byddwch yn dawel eich meddwl gan wybod fydd y Cyngor ddim yn caniatáu ailfeddiannu'r eiddo nes iddo gynnal archwiliad manwl a phenderfynu bod yr annedd yn cydymffurfio â'r safonau diogelwch tân, amwynderau a rheoli sy'n ofynnol o dan Gynllun Trwyddedu Ychwanegol Tai Amlfeddiannaeth 2024 y Cyngor. Dim ond pan fydd y Cyngor yn fodlon bod y safonau yma wedi'u bodloni y bydd caniatâd i'r eiddo gael ei ailfeddiannu'n Dŷ Amlfeddiannaeth trwyddedig.

Er does dim modd i'r Cyngor reoleiddio pa unigolion sy'n meddiannu Tŷ Amlfeddiannaeth na rheoli ymddygiad tenantiaid, mae'r cynllun trwyddedu wedi'i gynllunio i sicrhau bod Tai Amlfeddiannaeth yn ddiogel, yn cael eu rheoli'n iawn, yn rhydd o ddadfeiliad sylweddol, ac wedi'u cyfarparu â'r cyfleusterau a'r amwynderau sy'n angenrheidiol i'w gwneud yn rhesymol addas ar gyfer amlfeddiannaeth.

Os yw pryderon ynghylch safonau eiddo, cydymffurfiaeth â thrwyddedau, ymddygiad gwrthgymdeithasol neu faterion diogelu yn codi, bydd gwasanaethau perthnasol y Cyngor a'r asiantaethau partner yn parhau i ymchwilio i faterion yn unol â'u cyfrifoldebau statudol a chymryd camau priodol pan fo angen.

Rydyn ni'n cydnabod y pryderon mae preswylwyr wedi'u codi a byddwn ni'n parhau i weithio gyda phartneriaid perthnasol i sicrhau bod unrhyw faterion sy'n effeithio ar gymunedau lleol yn cael eu diwallu'n briodol.

Dyma obeithio bod yr ymateb uchod yn egluro rôl a chyfrifoldebau'r Cyngor mewn perthynas â'r mater.

Yn gywir

Rhian Hope
Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Diogelu'r Cyhoedd